

*Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin**Disgrifiad o'r modiwl*

Mae'r modiwl hwn wedi'i gynllunio i addysgu myfyrwyr am yr amrywiaeth o ddulliau mathemategol a gaiff eu defnyddio wrth fodelu, drwy eu cymhwyso at ddatrys problemau go iawn. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys hafaliadau gwahaniaethol, algebra llinol a chalcwlws factor. Bydd y myfyrwyr yn ymgyswrtu â sgiliau mathemategol newydd. Nid yw'r modiwl yn gofyn am ddefnyddio meddalwedd arbenigol megis systemau cyfrifiadurol Algebra ac mae'r deunyddiau astudio a'r asesiadau wedi'u cynllunio i hwyluso hyn. Bydd y modiwl hwn yn rhoi sail gadarn iddynt astudio ar lefel uwch ac mae'n hanfodol o ran paratoi ar gyfer y rhan fwyaf o fodiwlau Lefel 3 Y Brifysgol Agored ym maes mathemateg, ystadegau neu ffiseg a rhai modiwlau ym maes gwyddor data.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn ar y cyd â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored. Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd dda mewn mathemateg, ffiseg neu bwnc cysylltiedig, lle mae'r cynnwys yn ymwneud â swm sylweddol o fathemateg gymhwysol
- diddordeb mewn cymhwyso'r fathemateg a gaiff ei hastudio yn y modiwl
- dealltwriaeth dda o'r dulliau mathemategol a gaiff eu hastudio yn y modiwl
- diddordeb mewn pa mor berthnasol yw mathemateg i fywyd pob dydd
- diddordeb mewn meithrin hyder oedolion i ddefnyddio mathemateg
- y gallu i gefnogi'r broses o ddatblygu sgiliau mathemategol a strategaethau astudio myfyrwyr â diddordebau a dyheadau gwahanol
- y parodrwydd i ddefnyddio cyfleusterau e-ddysgu, megis:
 - gwefan y modiwl, a gwefannau eraill y Brifysgol, i lawrlwytho deunyddiau hanfodol a chael gafael ar wybodaeth arall
 - systemau'r Brifysgol er mwyn monitro cynnydd y myfyrwyr
 - e-bost a fforymau'r Brifysgol er mwyn cyfathrebu â'r myfyrwyr, tiwtoriaid a staff eraill mewn modd anghydamserol
 - tiwtorialau ar-lein, lle y bo'n briodol, yn unol â strategaeth diwtora'r modiwl
 - marcio aseiniadau a gyflwynir yn electronig, a gaiff eu marcio gan diwtoriaid, ar y sgrin.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad o addysgu mathemateg ar y lefel hon i oedolion neu fyfyrwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd addysgol
- profiad o addysgu mathemateg gymhwysol ar yr ail lefel yn y brifysgol
- brwdfrydedd dros fathemateg a'r gwaith o'i haddysgu
- profiad o farcio aseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid, a gyflwynir yn electronig, ar y sgrin yn Y Brifysgol Agored, yn enwedig mewn pwnc sy'n gyfoethog yn symbolaidd.

Gwybodaeth ychwanegol

Gan y bydd myfyrwyr ar y modiwl hwn yn gallu dewis cyflwyno eu haseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA) yn electronig drwy system TMA/EMA ar-lein y Brifysgol, bydd gofyn i chi farcio a rhoi adborth ar y TMA a gyflwynir yn electronig a dychwelyd y gwaith a farciwyd fel ffeil electronig, ar y ffurf ragnodedig, i wasanaeth TMA/EMA ar-lein y Brifysgol.

Os bydd y broses benodi yn cynnwys ymarfer marcio electronig, rhoddir rhywfaint o arweiniad ar hyn. Bydd rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael pe byddech yn cael eich penodi i'r rôl.

Mae'n bosibl y bydd union natur y cyfleusterau e-ddysgu a systemau'r Brifysgol i fonitro cynnydd myfyrwyr a delio ag aseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA) yn datblygu yn y dyfodol, a bydd angen i chi fod yn barod i addasu yn unol â hynny. Noder bod disgwyl i diwtoriaid ddefnyddio eu cyfarpar eu hunain ar gyfer pob agwedd ar e-ddysgu yn unol â pholisi cyfredol y Brifysgol.

Manylion sy'n ymwneud â'r modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	1b
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	3
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	3.5

Gallai fod cyfleoedd i Ddarlithwyr Cyswllt ymgymryd â gwaith asesu cysylltiedig y ceir tâl amdano – byddwn yn cysylltu â chi ar wahân os yw hyn yn berthnasol.